



Gwaredu **BVD**

DEALL CANLYNIADAU EICH PRAWF BVD

Mae dwy ffordd wahanol o brofi am BVD, ac mae'r ddwy ffordd yn profi am wahanol bethau o fewn y fuches. Isod, rydyn ni'n egluro'r gwahaniaeth rhwng y profion, ym mha sefyllfa defnyddir pa phrawf a beth yw ystyr y canlyniadau, er mwyn helpu chi i ddeall beth sydd angen i chi wneud nesaf.

1. PRAWF GWRTHGYRFF (SGRINIO STOC IFANC)

Pwrpas: nodi os yw anifail wedi dod i gysylltiad â'r feirws yn ystod ei oes.

Fel rhan o Sgrin Stoc Ifanc flynyddol Gwaredu BVD, mae 5 anifail, rhwng 9-18 mis oed a fagwyd ar y fferm, lle posib, o bob grŵp rheoli yn cael eu gwaedu (fel arfer yn ystod prawf TB) ac yn cael eu profi am wrthgyrff BVD. Mae profi 5 anifail fesul grŵp rheoli yn ddigon i roi sampl cynrychiolydd ar gyfer y fuches gyfan.

Sgrin gwyladwriaeth yw hon i nodi statws BVD y fuches ac i nodi a oes angen gwneud gwaith diagnostig pellach.

Dehongli canlyniadau gwrthgyrff::

NEGYDDOL



Nid yw'r anifeiliaid hyn wedi cael eu heintio gan BVD yn ystod eu hoes.

Os yw pob anifail wedi cael canlyniad negyddol yn ystod y Sgrin Stoc Ifanc flynyddol, mae hyn yn awgrymu nad yw BVD yn bresennol ar eich fferm, yn enwedig os cafodd anifeiliaid a fagwyd ar y fferm eu profi.

Os yw un neu fwy o anifeiliaid eich buches yn profi'n bositif am wrthgyrff a/neu bod arwyddion clinigol o BVD i'w gweld yn y fuches, mae'n bwysig brofi anifeiliaid wrthgyrff negatiff am antigen er mwyn nodi a ydyn nhw'n anifeiliaid sydd wedi'u Heintio'n Barhaus (PI) neu beidio.

Os cewch sgrin wrthgyrff negyddol, nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach - nid oes BVD yn eich buches.

Parhau â mesurau bioddiogelwch uchel a sgrinio blynyddol er mwyn cadw eich statws negyddol.

POSITIF

Mae'r anifeiliaid hyn wedi dod i mewn gysylltiad â feirws BVD ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae canlyniad positif mewn anifail ifanc (9-18 mis oed) yn dangos ei fod wedi dod i gyswllt â'r feirws yn ddiweddar.

Gallai ffynhonnell yr haint fod oherwydd anifail PI ar eich fferm, cyswllt â gwartheg cyfagos, gwartheg yn cymysgu mewn martau neu dorri bioddiogelwch.

Bydd anifeiliaid positif wedi'u heintio dros dro ac yn lledaenu'r feirws am 2-3 wythnos, cyn creu ymateb imiwnedd. Ar ôl hyn nid ydynt bellach yn berygl i weddill eich anifeiliaid. Bydd anifeiliaid sydd wedi'u brechu a gafodd eu profi ar gamgymeriad hefyd yn profi'n bositif am wrthgyrff.

Os cewch brawf gwrthgyrff positif, mae hyn yn rhybudd a dylech drafod y canlyniadau gyda'ch milfeddyg a thrafod a oes angen cynnal ymchwiliadau pellach.


Ni ddylai anifeiliaid sy'n bositif am wrthgyrff gael eu hynysu na'u difa, nid ydynt yn ffynhonnell haint tymor hir.

Sut mae gwartheg yn profi'n bositif am wrthgyrff?

Ni all anifeiliaid sy'n bositif am wrthgyrff **fyth** fod yn anifeiliaid PI ac **nid** oes angen eu difa.

Gall anifeiliaid sy'n **negyddol** am wrthgyrff fod yn anifeiliaid PI. Os cewch 4 canlyniad positif ac un negyddol am wrthgyrff ar y Sgrin Stoc Ifanc, gall yr anifail negyddol yna fod yn PI sydd yn lledaenu'r feirws ar y fferm. Felly, cofiwch fod angen iddo gael prawf antigen i weld.

Sut mae gwartheg yn profi'n bositif am wrthgyrff



2. PRAWF ANTIGEN (HELFA PI)

Pwrpas: nodi anifeiliaid sy'n bositif am y feirws, sy'n gyfrifol am ei ledaenu.

Mae'r math hwn o brawf fel arfer yn cael ei gynnal fel rhan o Helfa PI ar ôl cael canlyniadau positif am wrthgyrff neu wrth dagio lloi ar ôl iddynt gael eu geni efo tagiau profi BVD.

Caiff gwaed, meinwe'r glust neu samplau swmp llaeth eu hanfon i'r lab i brofi os yw'r anifeiliaid sydd wedi'u samplu yn bositif am y feirws ac yn lledaenu'r feirws. Mae gwartheg yn cael eu geni'n anifeiliaid PI. Nid ydynt yn gallu dod yn anifeiliaid PI yn ddiweddarach yn eu bywydau.



Dehongli canlyniadau Antigen:

NEGYDDOL



Nid yw'r anifail hwn yn anifail PI.

POSITIF



Mae'r anifail sydd wedi'i brofi yn cario'r feirws. Dylai unrhyw anifeiliaid sy'n bositif gael eu hynysu ar unwaith er mwyn osgoi unrhyw ledaenu pellach.

Gall anifail sydd wedi profi'n bositif fod yn anifail PI neu ei fod wedi'i heintio dros dro. Dylai anifail sydd wedi cael prawf antigen positif gael ei ail brofi 21 diwrnod yn ddiweddarach er mwyn cadarnhau a yw'n anifail PI neu beidio.

Os yw canlyniad yr ail brawf yn negyddol, cafodd yr anifail ei heintio dros dro ar adeg y prawf cyntaf ac roedd yr haint wedi clirio erbyn yr ail brawf 21 diwrnod yn ddiweddarach. Nid yw'r anifail hwn bellach yn ffynhonnell haint BVD ar eich fferm a gall aros yn rhan o'r fuches.

Os yw canlyniad yr ail brawf yn bositif, mae'r anifail hwn yn anifail PI. Ni ellir trin na gwella anifeiliaid PI, dylid eu hynysu a'u difa er mwyn atal y feirws rhag lledaenu.

Amcangyfrifir bod 1-2% o anifeiliaid o fewn buches sy'n bositif am wrthgyrff fod yn anifeiliaid PI.

Er mwyn atal y feirws rhag lledaenu, rhaid nodi a difa'r anifeiliaid hyn.

Sut mae anifail PI yn cael ei greu



Buwch feichlog heb ei brechu sydd heb gael ei herio â BVD o'r blaen (naif)



Buwch feichlog (45-120 diwrnod) sydd wedi'i heintio â feirws BVD



Buwch yn datblygu imiwnedd ac yn cynhyrchu statws positif am wrthgyrff. Llo yn cael Haint Barhaus (PI).



Llo sy'n cael ei eni â Haint Barhaus (PI) yn heintio anifeiliaid eraill yn y fuches. Does dim gwella arno, bydd angen ei ddifa.